# Y CYNGOR 17/05/12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Huw Edwards (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Stephen Churchman, Endaf Cooke, Anwen Davies, Lesley Day, Eddie Dogan, David G. Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, T.G. Ellis, Alan Jones Evans, Aled Ll. Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, John B. Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron M. Jones, Anne Ll. Jones, Brian Jones, Charles W. Jones, Dyfrig W. Jones, Elin Walker Jones, Eric M. Jones, John W. Jones, Linda W. Jones, Llywarch Bowen Jones, Sion W. Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Christopher James O'Neal, Dewi Owen, Michael Sol Owen, W. Roy Owen, W.Tudor Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed W. Williams, Gethin G. Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John W. Williams, Owain Williams, R.H. Wyn Williams, Mandy Williams-Davies, Robert J. Wright, Eurig Wyn

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn O Williams, Dafydd Lewis ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd), Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Eleri Parry (Arweinydd Tîm Pwyllgorau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Chris Hughes a June Marshall

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd T.G. Ellis

Dilynwyd y weddi gydag anerchiad gan y Cyn-Gynghorydd John Gwilym Jones, Cadeirydd 2011/12.

**1. CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn gadeirydd am 2012/2013.

Llofnododd y Cynghorydd Selwyn Griffiths ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2012/13.

**2. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Huw Edwards yn is-gadeirydd am 2012/13

Llofnododd y Cynghorydd Huw Edwards ddatganiad yn derbyn y swydd o Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2012/13.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2012 fel rhai cywir.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

i) Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn briffio gan y Swyddog Monitro ynglŷn â'r eitem "Cyflogau Aelodau".

Eglurwyd bod gan bob aelod dan y Côd Ymddygiad, fuddiant personol posibl yn yr eitem hon, ond nid yw'n fuddiant sy'n rhagfarnu. Dylid datgan y buddiant drwy lofnodi'r ffurflen briodol ond bydd hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth a'r pleidleisio.

ii) Datganodd y cyfan o'r aelodau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod fuddiant personol yn yr eitem "Cyflogau Aelodau" oherwydd eu bod fel aelodau o'r Cyngor yn derbyn cyflog.

'Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

iii) Datganodd y Cynghorydd Caerwyn Roberts fuddiant personol yn y Rhybudd o Gynnig Brys parthed "Creu Parthau Cadwraeth Morol" gan ei fod yn Gadeirydd Pwyllgor Llŷn a'r Sarnau.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem

iv) Datganodd y Cynghorydd Mandy Williams-Davies fuddiant personol yn y Rhybudd o Gynnig Brys parthed "Creu Parthau Cadwraeth Morol" gan ei bod yn briod â pherson sy'n ymwneud â'r ddogfen.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**5. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

i) Cydymdeimlwyd â'r canlynol –

Y Cynghorydd June Marshall a'r teulu ar farwolaeth ei thad yn ddiweddar.

Teulu Gwilym Humphreys, cyn-Gyfarwyddwr Addysg, cyn-Gyngor Sir Gwynedd a fu farw'n ddiweddar. Fe enillodd gydnabyddiaeth genedlaethol am ei gyfraniad gloyw i fyd addysg ddwyieithog yng Nghymru fel athro, prifathro cyntaf Ysgol Gyfun Rhydfelen, arolygydd ysgolion a Chyfarwyddwr Addysg Gwynedd. Ar ôl ymddeol, cyfrannodd

yn helaeth at bwyllgorau'r Brifysgol a'r Eisteddfod Genedlaethol. 'Roedd hefyd yn Gymrawd yr Eisteddfod Genedlaethol.

Yna, cydymdeimlwyd â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar a safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

ii) Llongyfarchwyd yr aelodau ar eu llwyddiant yn yr etholiadau.

Llongyfarchwyd hefyd Ysgol Abercaseg, Bethesda ar dderbyn adroddiad rhagorol ym mhob un o'r meysydd yn dilyn arolwg diweddar gan Estyn.

iii) Dymunwyd yn dda i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri sydd i'w chynnal ar diroedd Glynllifon dechrau mis Mehefin 2012 gan longyfarch y cymunedau hynny a fu'n gyfrifol am gasglu arian tuag at yr ŵyl.

**6. MATER BRYS**

Cytunodd y Cadeirydd dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynnwys y rhybudd o gynnig ynglŷn â chreu Parthau Cadwraeth Morol oherwydd bod angen gweithredu'n ddiymdroi.

**7. ARWEINYDD Y CYNGOR**

Penodwyd y Cynghorydd Dyfed Edwards yn Arweinydd y Cyngor.

Cafwyd anerchiad byr gan yr Arweinydd.

**8. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a materion perthynol.

Adroddwyd –

a) Ei bod yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod ei amrywiol drefniadau'n adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar Cyngor, sef cyfansoddiad ei bwyllgorau, ei gynrychiolaeth ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, dyraniad cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu yn ogystal â'r cymorth gwleidyddol a rhaniad oriau'r swyddogion cefnogi aelodau. 'Roedd angen penodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o blith yr aelodau sydd ddim yn aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth. Yn ogystal, 'roedd angen enwebu dau aelod, sydd ddim yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer gwasanaethu ar Awdurdod yr Heddlu, i fod yn aelodau ar y Cydbwyllgor fydd yn dyrannu seddi ar yr awdurdod.

b) Yr ystyriwyd y cydbwysedd gwleidyddol gan Grŵp Busnes y Cyngor ar 16 Mai 2012 a chyflwynodd Arweinydd y Cyngor argymhellion y grŵp i'r Cyngor.

c) Na dderbyniwyd yr un ymgeisydd ar gyfer sedd Ward Bryncrug a chynhelir isetholiad ar 14 Mehefin 2012. Adolygir cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn dilyn derbyn canlyniad yr isetholiad.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Nodi bod Cyfansoddiad presennol y Cyngor fel a ganlyn:-**

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru** | **37** |
| **Annibynnol** | **17** |
| **Llais Gwynedd** | **14** |
| **Llafur** | **4** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **2** |
| **Sedd Wag** | **1** |

**(ii) Mabwysiadu'n unfrydol dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tabl isod -**

| | Nifer | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Dem Rhydd | Un | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor | 75 | 37 | 17 | 14 | 4 | 2 | 1 | 75 |
| Corfforaethol | 18 | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | | 18 |
| Cymunedau | 18 | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | | 18 |
| Gwasanaethau | 18 | 9 | 4 | 3 | 1 | | 1 | 18 |
| Archwilio | 18 | 9 | 4 | 4 | 1 | | | 18 |
| | | 36 | 16 | 13 | 4 | 2 | 1 | 72 |
| Democratiaeth | 15 | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | | 15 |
| Iaith | 15 | 8 | 4 | 3 | | | | 15 |
| Cynllunio | 15 | 8 | 3 | 3 | 1 | | | 15 |
| Trwyddedu Canolog | 15 | 7 | 4 | 3 | | | 1 | 15 |
| Apêl Cyflogaeth | 7 | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 | | 7 |
| | | 33 | 15 | 13 | 3 | 2 | 1 | 67 |
| Pensiynau | 7 | 3 | 2 | 1 | | 1 | | 7 |
| Cydbwyllgor Staff | 11 | 6 | 2 | 2 | 1 | | | 11 |
| Cydbwyllgor AAA | 7 | 3 | 2 | 1 | | | 1 | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 8 | 4 | 2 | 1 | 1 | | | 8 |
| CYSAG | 7 | 3 | 2 | 2 | | | | 7 |
| | | 19 | 10 | 7 | 2 | 1 | 1 | 40 |
| Balans Pwyllgorau | | 88 | 41 | 33 | 9 | 5 | 3 | 179 |

**(iii) Dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**

**(iv) Mabwysiadu'n unfrydol dyraniad cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol fel a ganlyn:-**
**Pwyllgor Craffu Corfforaethol – Llais Gwynedd**
**Pwyllgor Craffu Cymunedau – Annibynnol**
**Pwyllgor Craffu Gwasanaethau – Plaid Cymru**

**(v) Mabwysiadu'n unfrydol dyraniad swyddi swyddogion cefnogi aelodau yn unol â chydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.**

**(vi) Cadarnhau oriau'r swyddogion cefnogi aelodau fel â ganlyn:-**
**Plaid Cymru 30 o oriau**
**Annibynnol 14 o oriau**
**Llais Gwynedd 11 o oriau**

**(vii) Cadarnhau'n unfrydol cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer y cyrff allanol fel â ganlyn:-**

| Corff | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol |
|---|---|---|---|---|---|
| Parc Cenedlaethol Eryri | 4 | 2 | 2 | 1 | 0 |
| Awdurdod Tân | 3 | 1 | 1 | 0 | 0 |

**(viii) Penodi'r Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

**(ix) Enwebu'r Cynghorwyr Sian Gwenllian a John W. Williams ar y Cydbwyllgor fydd yn dyrannu seddi ar Awdurdod yr Heddlu.**

**8. Y CYFANSODDIAD**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar y Cyfansoddiad.

Adroddwyd gan y Swyddog Monitro bod angen i'r Cyngor, yn unol â phenderfyniad y Cyngor yn Hydref 2011 a gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fabwysiadu'r Cyfansoddiad newydd a fyddai'n cyflwyno trefniadau gweithredol, sef trefn gabinet.

Nododd mai'r prif newid i drefniadau'r Cyngor yw bod hawliau penderfynu ar a gweithredu mwyafrif helaeth o swyddogaethau'r awdurdod yn trosglwyddo o'r Cyngor i'r Weithrediaeth. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y gyllideb a'r fframwaith polisi, a olygai'r Cynllun Tair Blynedd a nifer o strategaethau penodol. Yn ogystal, cedwir yr hawl i'r Cyngor benodi Arweinydd, mabwysiadu neu ddiwygio'r Cyfansoddiad, gosod polisi cyflogau prif swyddogion a gwneud is-ddeddfau. Cyfeiriodd at gyfrifoldebau'r Pwyllgorau Cynllunio, Trwyddedu, Pensiynau ac Apelau Cyflogaeth. Bydd popeth arall yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth ac ni fydd hawl cyfeirio i fyny i'r Cyngor Llawn.

Bydd yr Arweinydd yn penderfynu ar nifer aelodau'r Weithrediaeth a'u portffolios ac yn hysbysu'r Cyngor am hynny. Nododd y bydd gan aelodau unigol y Weithrediaeth hawl penderfynu mewn perthynas â materion o fewn eu portffolios, yn amodol ar rai cyfyngiadau. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir gan aelod unigol yn ddarostyngedig i'r un trefniadau a phenderfyniadau eraill y Weithrediaeth, sef adroddiad ysgrifenedig llawn, cyhoeddi taflen benderfyniad a'r hawl i alw i mewn i bwyllgor craffu.

Nododd y bydd y tri pwyllgor craffu, ac i raddau y Pwyllgor Archwilio, gyda rôl o alw'r Weithrediaeth ac aelodau unigol y Weithrediaeth, i gyfrif. Bydd gan y pwyllgorau craffu'r hawl i alw i mewn benderfyniadau'r Weithrediaeth neu aelodau unigol o'r Weithrediaeth dan amgylchiadau penodol. Bydd gan y pwyllgorau craffu hefyd y dyletswydd o ychwanegu gwerth i weithgareddau'r Cyngor a'r canlyniadau i drigolion y sir, trwy gynnal astudiaethau o effaith gwahanol bolisïau ar y trigolion, monitro perfformiad gwahanol wasanaethau a chynnal ymchwiliadau i bynciau perthnasol er mwyn cyflwyno argymhellion i'r Weithrediaeth.

Parthed y pwyllgorau ardal, penderfynodd y Cyngor ystyried ymhellach symud at fforymau ardal. Gyda'r newid i drefn weithredol, ni fydd gan y pwyllgorau ardal unrhyw rôl gwneud penderfyniadau. Yn ystod mis Mawrth, cafwyd sylwadau'r dair ardal ar y trefniadau ond ni fu cyfle i'w trafod a dod i gasgliad. Erys y drafodaeth felly ar union rôl a phwrpas y pwyllgorau ardal sut orau i'w ymgorffori i gyfansoddiad y Cyngor. Oherwydd hynny, nid yw'r fersiwn hwn o'r Cyfansoddiad yn cynnwys y pwyllgorau ardal ac argymhellodd gyflwyno adroddiad pellach i'r Cyngor ym Mehefin yn ymdrin yn benodol â'r pwyllgorau ardal.

Rhoddodd fanylion am y prif newidiadau i'r Cyfansoddiad.

b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

i) Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at ran 3 o'r Cyfansoddiad, Cyfrifoldeb am y Swyddogaethau ac yn benodol y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth. Nododd bod y geiriad anghywir wedi ei gynnwys yn y tabl "Swyddogaethau Amrywiol" ac y byddai angen ei ddiwygio i gynnwys y geiriad cywir. Dylid awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y cywiriad angenrheidiol.

ii) Mewn perthynas ag Erthygl 9 – Y Pwyllgor Safonau a tymor swydd aelodau'r awdurdod lleol ar y pwyllgor am gyfnod dim hwy na phedair blynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol cyffredin nesaf, pa un bynnag fyddai'r byrraf, gofynnodd aelod a fydd angen penodi aelodau newydd yn 2016 o ystyried bod tymor y Cyngor newydd am bum mlynedd.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Monitro y cymerwyd y rheol hon o reol statudol, ond yn ystod y cyfnod dan sylw, rhagwelai y gellid ei newid er caniatáu i'r aelodau hynny barhau'n aelodau ar y pwyllgor hyd yr etholiad nesaf yn hytrach na gorfod ymgymryd â newid flwyddyn yn gynt. Addawodd drafod y mater gyda Llywodraeth Cymru.

iii) Datganodd aelod anfodlonrwydd nad oes hawl dan y gyfundrefn newydd i gyfeirio mater o'r Weithrediaeth i'r Cyngor Llawn ac 'roedd o'r farn bod y dull hwn yn annemocrataidd. Gofynnodd am i'r mater hwn gael ystyriaeth pellach er caniatáu i aelod cyffredin o'r Cyngor gael hawl i gyfeirio mater yn uwch.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Monitro oherwydd gofynion deddfwriaethol, y Weithrediaeth fydd â'r hawliau penderfynu a

gweithredu mwyafrif helaeth o swyddogaethau'r Cyngor ac felly nid oes modd i'r Cyngor Llawn newid unrhyw benderfyniad o eiddo'r Weithrediaeth. Fodd bynnag, cyfeirir yn y Cyfansoddiad at yr hawl i alw mater i fewn o'r Weithrediaeth i'r pwyllgor craffu ac yna byddai hawl gan y pwyllgor craffu i gyfeirio'r mater i'r Cyngor Llawn. Nid oes modd i benderfyniad y Cyngor Llawn gymryd lle penderfyniad y Weithrediaeth a bydd angen wedyn i'r Weithrediaeth ailystyried y mater.

iv) Cyfeiriodd aelod at y cyfeiriad yn y Cyfansoddiad bod angen i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ac unrhyw ddau aelod o'r pwyllgor gyflwyno rhybudd i alw i mewn unrhyw benderfyniad o eiddo'r Weithrediaeth. Cynigiodd welliant sef bod unrhyw dri aelod o'r pwyllgor craffu â'r hawl i alw i mewn.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Monitro nad yw cael Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ac unrhyw ddau aelod o'r pwyllgor i wneud hyn yn ofyniad statudol ac y byddai'n bosibl ei newid os y dymunir gwneud hynny.

'Roedd aelod o'r farn y dylid rhoddi statws i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ac y tybiai y byddai'r cadeirydd yn parchu dymuniadau gweddill aelodau'r pwyllgor ac felly dylid glynu at yr hyn a nodir yn y cyfansoddiad.

'Roedd aelod arall yn cytuno gyda'r gwelliant gan y byddai'r dull hwn o weithredu'n fwy democrataidd a chytunodd rhai o'r aelodau eraill â hynny.

Syrthiodd y gwelliant i gael unrhyw dri aelod o'r pwyllgor craffu â'r hawl i alw i mewn.

v) Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl i'r pwyllgorau harbwr adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Monitro y byddai'n bosibl i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau graffu gwaith y pwyllgorau hyn ond o ran trefn adrodd yn ôl ffurfiol bydd yn ofynnol iddynt wneud hynny i'r Weithrediaeth.

vi) Nododd aelod nad oes cyfeiriad yn y Cyfansoddiad at sylw a wnaed ganddo eisoes parthed a ddylai y rhai sy'n gweithio llawn amser fod yn aelodau o'r Weithrediaeth.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Monitro nad oes rhwystr cyfreithiol na chyfansoddiadol i aelod o'r Weithrediaeth ddal swydd arall. Nododd bod yna ddisgwyliad clir yn adroddiad y panel sy'n edrych ar gyflogau aelodau y bydd aelodau'r Weithrediaeth yn cyflawni'r gwaith yn llawn amser ond nid yw'n gyfystyr na chânt ddal swyddogaeth arall.

vii) Gofynnodd aelod sut y byddai'n bosibl iddi gael trafodaeth yn y Cyngor Llawn ar faterion a fyddai'n bwysig i'w hetholwyr yn wyneb y newid i drefn Cabinet.

Mewn ymateb, hysbysodd Arweinydd y Cyngor bod y Cyngor Llawn yn cyfarfod pum gwaith mewn blwyddyn ond er mwyn cynrychioli'r etholwyr yn fwy effeithiol efallai y bydd angen cynnal cyfarfodydd ychwanegol o'r Cyngor. Cytunodd â sylw'r aelod bod angen sianelau i fynd i'r afael â'r materion sy'n allweddol i'r etholwyr. Nododd y posibilrwydd i aelodau'r Weithrediaeth gynnal cymorthfeydd yn gyson a'u bod yn agored i unrhyw aelod eu mynychu.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r rhannau atodol o'r Cyfansoddiad i ddisodli'r rhannau cyfatebol yn yr hen Gyfansoddiad.**
**(b) Cyflwyno adroddiad pellach i'r Cyngor ym Mehefin ar y pwyllgorau ardal.**
**(c) Awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y cywiriad angenrheidiol i dabl "Swyddogaethau Amrywiol" y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth yn rhan 3 o'r Cyfansoddiad.**

## 9. CYFLOGAU AELODAU

a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar gyflogau aelodau.

Adroddodd y Pennaeth bod cyflogau cynghorwyr ar gyfer 2012/13 a'r blynyddoedd dilynol i'w talu'n unol â phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Cyhoeddodd y panel ei adroddiad yn manylu ar y cyflogau yn Rhagfyr 2011 a deuai penderfyniadau'r panel i rym yn dilyn etholiadau mis Mai pryd y bydd y cyflogau canlynol yn daladwy –

| | |
|---|---|
| Cynghorydd cyffredin | £13,175 (Cyflog sylfaenol) |
| Arweinydd y Cyngor | £47,500 (Uwch Gyflog) |
| Dirprwy Arweinydd y Cyngor | £33,460 (Uwch Gyflog) |
| Aelod o'r Cabinet | £28,780 (Uwch Gyflog) |
| Cadeirydd Pwyllgor | £21,910 (Uwch Gyflog) |
| Arweinydd Grŵp Gwleidyddol | £16,920 (Uwch Gyflog) |
| Cadeirydd y Cyngor | £21,375 (Cyflog Dinesig) |
| Is-gadeirydd y Cyngor | £16,625 (Cyflog Dinesig) |

Nid oes gan y Cyngor hawl i newid y symiau hyn ac mae hawl gan aelodau unigol i hepgor y cyfan neu ran o'u cyflog pe dymunent. Nododd bod pump dosbarth o aelodau sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog sef Arweinydd y Cyngor, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, Aelod o'r Cabinet, Cadeirydd Pwyllgor ac Arweinydd Grŵp Gwleidyddol a chyfyngir nifer yr uwch gyflogau y gellir eu talu i 18. 'Roedd angen i'r Cyngor newydd benderfynu pa swyddi sy'n gymwys i dderbyn yr uwch gyflogau.

Gofynnwyd am farn y Gweithgor Gwasanaethau Aelodau ar y dyraniad ym Mawrth 2012 fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Cyngor newydd ac argymhelliad y Gweithgor oedd talu Uwch Gyflogau i Arweinydd y

Cyngor a hyd at 9 aelod o'r Cabinet, gan gynnwys unrhyw Ddirprwy Arweinydd, Cadeiryddion y tri Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgorau Archwilio, Cynllunio a Thrwyddedu. 'Roedd hyn yn dod a chyfanswm y cyflogau a delir i 16. Argymhellir peidio â dyrannu'r ddau uwch gyflog sy'n weddill, am y tro, hyd nes y bydd Cyfansoddiad y Cyngor newydd a llwyth gwaith y gwahanol bwyllgorau'n glir, ac adolygu'r mater yn ystod y flwyddyn.

b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

i) Gofynnodd aelod am roddi ystyriaeth i'r posibilrwydd o dalu lwfans yn ogystal i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Mewn ymateb, hysbysodd Arweinydd y Cyngor nad yw llwyth gwaith y pwyllgor yn glir ar hyn o bryd ond gellid ystyried y mater ymhellach yn ystod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD**
**a) Dyrannu uwch gyflog i'r swyddi canlynol -**
**Arweinydd y Cyngor**
**Dirprwy Arweinydd os oes un**
**Aelodau'r Cabinet**
**Cadeiryddion y tri pwyllgor craffu**
**Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio**
**Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu**
**b) Adolygu yn ystod y flwyddyn a oes angen dyrannu'r ddau uwch gyflog sy'n weddill.**

**10. PENODI AELOD LLEYG I'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro ar y drefn o benodi aelod lleyg i'r Pwyllgor Archwilio.

Adroddwyd gan y Swyddog Monitro ei bod yn ofynnol, yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, i'r Cyngor benodi Pwyllgor Archwilio i arolygu a chraffu ar faterion ariannol, rheolaeth risg a llywodraethu corfforaethol ac mae'n rhaid cael o leiaf un aelod lleyg ar y pwyllgor a gellir cael hyd at draean o'r aelodaeth yn aelodau lleyg. Bydd gan unrhyw aelod lleyg hawl pleidleisio a thelir cyflog aelod cyfetholedig o £198 y dydd.

Nododd i'r Gweithgor Gwasanaethau Aelodau ystyried y mater pryd yr argymhellwyd sefydlu Pwyllgor Archwilio yn cynnwys 18 aelod etholedig ac un aelod lleyg. Argymhellir hefyd i'r aelodaeth etholedig fod ar sail cydbwysedd gwleidyddol.

Ni ddynodwyd trefn benodol ar gyfer cyfethol yr aelod lleyg i'r pwyllgor. Awgrymir yng nghanllawiau drafft Llywodraeth Cymru y dylid hysbysebu'n gyhoeddus ac awgrymir hefyd y dylai'r unigolion a benodir fod yn annibynnol o'r Cyngor, heb unrhyw gyswllt busnes ag ef, ac yn meddu ar wybodaeth o lywodraeth leol. Awgrymir na ddylid penodi unigolion mae

eu lliwiau gwleidyddol yn hysbys. Rhoddodd fanylion am y meini prawf ar gyfer penodi'r aelod lleyg.

Argymhellodd hysbysebu yn y wasg leol/rhanbarthol am ddatganiadau o ddiddordeb gan rhai sy'n dymuno gwasanaethu fel aelod lleyg ar y pwyllgor ac y dylai Grŵp Busnes y Cyngor ystyried y ceisiadau a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn a fyddai'n penodi'r unigolyn i wasanaethu ar y pwyllgor am dymor o bum mlynedd.

(b) Gwahoddwyd aelodau i gynnig sylwadau.

i) Mewn perthynas â'r meini prawf, cynigiodd aelod welliant sef na ddylid eithrio aelodau cyffredin o bleidiau gwleidyddol rhag bod yn aelodau lleyg ar y Pwyllgor Archwilio ond fe eithrir unigolion lle mae eu lliwiau'n hysbys.

ii) 'Roedd aelod arall yn anghytuno â'r gwelliant ac o'r farn na ddylai aelod lleyg ar y pwyllgor fod â chysylltiad ag unrhyw blaid wleidyddol.

Pasiwyd y gwelliant.

**PENDERFYNWYD**

(a) **Mabwysiadu'r meini prawf atodedig ar gyfer aelod lleyg ar y Pwyllgor Archwilio oddigerth diwygio'r geiriad perthnasol i adlewyrchu'r gwelliant uchod.**

(b) **Cymeradwyo'r drefn penodi a argymhellir uchod.**

## 11. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYNGOR AR GYFER 2012/13

Cyflwynwyd, i'w mabwysiadu, dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2012/13.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2012/13.**

## 12. RHYBUDD O GYNNIG

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13, adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig brys, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12), oddi wrth y Cynghorydd W. Gareth Roberts, yn gofyn am gael trafod y cynnig yn y Cyngor Llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"***Bod Cyngor Gwynedd yn anesmwyth iawn efo cynigion ymgynghorol Llywodraeth Cymru i greu Parthau Cadwraeth Morol o gwmpas arfordir Gwynedd oherwydd eu goblygiadau i'r diwydiannau pysgota a*

*thwristiaid a'n bod yn gofyn i'r aelod perthnasol ar y Cabinet roddi sylw brys i ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad"*

Adroddodd yr aelod ei fod wedi dod â'r cynnig gerbron oherwydd y bwriad gan Lywodraeth Cymru i greu Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru gyda ymgynghoriad ar ddeg o'r parthau bwriadedig yn cymryd lle ar hyn o bryd gyda phedwar ohonynt o gwmpas glannau Gwynedd.

Awgrymodd aelod arall y dylid newid y gair "anesmwyth" yn y cynnig i "anfodlon" a chytunodd y cynigydd â hynny.

Cyfeiriodd aelod at gyfarfod cyhoeddus a gynhelir yng Nghlwb Hwylio Pwllheli heno i drafod y mater.

Nododd sawl aelod y byddai creu'r parthau hyn yn sicr o effeithio ar fywoliaeth pysgotwyr.

**PENDERFYNWYD datgan bod Cyngor Gwynedd yn anfodlon iawn efo cynigion ymgynghorol Llywodraeth Cymru i greu Parthau Cadwraeth Morol o gwmpas arfordir Gwynedd oherwydd eu goblygiadau i'r diwydiannau pysgota a thwristiaid a gofyn i'r aelod perthnasol ar y Cabinet roddi sylw brys i ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 2.45 p.m.

____________________

**CADEIRYDD**